

Ar ddydd Mawrth 22 Chwefror 2011 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch am 7.00pm
PRESENNOL: Y Cyng. T Davies (Cadeirydd); Mrs E Davies; T Lewis; D Jones; D R Morgan; D Sheppard; R Owen; M Evans a'r clerc

- 2983** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. D M Hughes a Mrs G Price
- 2984** **Materion Personol:** Dim
- 2985** **Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol:** Dim
- 2986** **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2011 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r cofnodion:
Cofnod 2961 Ceisiadau am swydd y clerc: PENDERFYNWYD trafod y mater hwn ar ddiwedd y Cyfarfod.
Cofnod 2962 Llyfrau Cofnodion y Cyngor: Rhoddwyd pum Llyfr Clawr Caled yn cynnwys Cofnodion y Cyngor (1845-2008) i Archifau Ceredigion ar 27 Ionawr 2011 (Rhif Derbyn 2670).
Bydd yr hawl i symud Llyfr Cofnod yn cael ei awdurdodi gan y Cadeirydd ac un Aelod arall o'r Cyngor.
Mewn llythyr dyddiedig 9 Chwefror 2011 cadarnhaodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru y bydd Llyfrau Cofnodion Plwyf Trefeurig 1894-1921 ac 1921-1945, sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol ar hyn o bryd, yn cael eu trosglwyddo'n fuan i Archifau Ceredigion, er mwyn cadw'r Cofnodion gyda'i gilydd fel casgliad.
Cofnodion ar Dalennau Rhydd: Saesneg o 06.06.79 a Chymraeg o 13 Mai 2008
Ym marn Archifydd Ceredigion (Mrs H Palmer) does dim angen cael y Cofnodion sydd ar ddalennau rhydd wedi'u rhwymo cyn eu gosod yn Archifau Ceredigion.
Cofnod 2978 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022: Cwblhawyd y ffurflen ymateb i'r fersiwn Adneuo o'r Cynllun, yn mynegi barn y Cyngor ar y cynllun datblygu arfaethedig ar gyfer Cymuned Penrhyncoch, gan Y Cyng. Richard Owen. Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad yr Aelodau o'r amser a'r ymchwil sylweddol oedd ynghlwm â'r dasg.
Cofnod 2982 Biniau Baw Cŵn ar hyd llwybr troed PATRASA: Derbyniwyd hysbysiad gan Adran yr Amgylchedd Ceredigion bod y cais i wacáu'r biniau baw cŵn yn fwy aml wedi'i anfon ymlaen i Adran y Prifffyrdd.
- 2987** **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a Fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**
SSE - Cynllun Fferm Wynt Nant y Moch: Adroddodd Y Cyng. Richard Owen mai'r bwriad mewn Cyfarfod yn Nhalybont ar 25 Ionawr oedd cael Aelodau'r Grŵp Cyswllt i arwyddo'r ddogfen Datganiad Cynnwys y Gymuned. Fodd bynnag, roedd yr aelodau oedd yn bresennol o'r farn y dylid cynnal trafodaethau pellach gydag SSE Renewables ynghylch maint yr Ariannu Cymunedol. Cytunwyd i gyflwyno'r cais i SSE a chynnal Cyfarfod pellach yn Nhalybont ar 23 Chwefror 2011.
Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Hysbysodd Y Cyng. Trefor Davies yr Aelodau fod enw'r grŵp wedi'i newid i "Canolfan Gymunedol Hen Ysgol Trefeurig Community Centre Ltd" i gydymffurfio â'r rheolau sy'n gysylltiedig â chyflwyno cais am arian Loteri.
- GOHEBIAETH**
- 2988** **Cynnig i gau Gorsaf Gwylwyr y Glannau yn Aberdaugleddau:** Cais gan Elin Jones AC i gynghorau ystyried cefnogi'r gwrthwynebiad i'r cynnig. PENDERFYNWYD gwrthwynebu'r cynnig i gau.
- 2989** **Swyddog Galluogi Tai Gwledig Ceredigion:** Copi o ymateb y Swyddog Galluogi i bapur ymgynghori ar ddyraniad tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. PENDERFYNWYD ei nodi a phasio'r dogfennau ymlaen i'r Cyng. D Sheppard.
- 2990** **Meysydd Chwarae (FIT) Cymru:** Gwahoddiad i Gynghorau i enwebu safleoedd hamdden awyr agored yn Feysydd Brenhines Elisabeth II. Gall safleoedd a enwebir ymgeisio am grantiau i wella'u cyfleusterau. PENDERFYNWYD anfon copi o'r gwahoddiad i PATRASA a Cae Chwarae Penbont i weld a hoffent gael eu henwebu.

- 2991 Lamp llwybr troed wedi torri ar Ystâd Maes yr Efail:** Cais gan un o drigolion Maes yr Efail, ystâd sydd heb ei mabwysiadu, am lamp newydd yn lle un sydd wedi torri. PENDERFYNWYD cydnabod y cais a gofyn cyngor pellach gan y Cyngorydd Sir, D Suter, fu'n delio gyda phroblemau goleuo ar yr ystâd.
- 2992 Ymgynghoriadau Polisi Un Llais Cymru:** Gwahoddiad i Gynghorau i enwebu cynghorydd/cynghorwyr sy'n fodlon gwasanaethu fel ymatebwyr gwirfoddol ar bwyllgorau ymgynghoriadau polisi.
Doedd dim un Aelod am wirfoddoli ar hyn o bryd.
- 2993 Adolygiad o Asesiad Risg a Chynllun Rheoli'r Cyngor Chwefror 2011 (Amg B)**
Cynhaliwyd adolygiad o gyfrifoldebau a thrafodion y Cyngor i asesu, lleihau a gwella'r rheolaeth o risgiau posib. Ystyriwyd pob agwedd ar reolaeth ariannol y Cyngor: paratoi'r gyllideb, gosod archebiant, adolygu gwariant yn erbyn y gyllideb; diogelwch bancio; sicrhau bod pob taliad yn gywir ac yn gyson ag archebion sefydlog a phwerau cyfreithiol. Cofnodi ac adhawlio taliadau TAW yn rheolaidd. Costau teithio a chyflog y clerc yn cael ei dalu'n unol â'r cyfraddau cenedlaethol a gytunwyd, a'r holl benderfyniadau a thrafodion ariannol yn cael eu nodi yn y Cofnodion
Adolygir polisi Yswiriant y Cyngor yn flynyddol. Bydd angen cynyddu'r Yswiriant Ffyddlondeb am y flynyddyn ariannol sydd i ddod oherwydd bydd yr arian sy'n cael ei ddwyn ymlaen, gan gynnwys y swm wrth gefn tuag at adeilad Cylch Meithrin Trefeurig, yn ogystal ag Archebiant 2011/12 yn fwy na'r £16,500 sydd wedi'i yswirio.
Adolygir yr Yswiriant Eiddo'n flynyddol yn erbyn y gofrestr asedau sy'n cael ei diweddarau'n gyson. Mae asedau'n cael eu gwirio a'u cynnal yn rheolaidd.
Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Diwygio) (Cymru) 2010 nodir y newid o ran gofynion i gofnodi gwerth asedau ar gyfer archwiliad 2010/11.
Wrth gynnal yr asesiad risg yma cyfeiriwyd at adroddiad yr Archwiliwr Mewnol 2009/10. Ni chanfuwyd unrhyw faterion oedd wedi'u hesgeuluso.
Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ac yn cadw at y cod ymddygiad; adolygir hwnnw pan dderbynnir cyngor diwygiedig. Mabwysiadwyd a glynir at y Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth Enghreifftiol; y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; Cynllun yr Iaith Gymraeg a Threfn Gwyno.
Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb wrth delio gydag arian y cyhoedd ac i gloi PENDERFYNODD barhau i fonitro a, lle bo'n bosibl, i wella'i ddulliau o reoli risg.

MATERION ARIANNOL

- 2994 LICC:** Gwybodaeth ar fenthycia gan Gynghorau yn 2011-12
: Gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r Canllaw i Ymarferwyr (2011)
: Cyngor mai'r uchafswm ar gyfer gwariant Adran 137 yn 2011-12 yw £6.44 yr etholwr.
PENDERFYNWYD nodi'r uchod.
- 2995 HSBC:** Balans Cyfrif Cymunedol ar 13.02.11: £1,000.30
- 2996 Sieciau Rhif 1034 a 1037:** Wrth lenwi sieciau rhodd-daliadau yng Nghyfarfod Ionawr 2011 collwyd dwy siec trwy amryfusedd. Mae'r rhain wedi'u canslo a'u gosod yng nghefn y llyfr sieciau.
Talu biliau: PENDERFYNWYD talu'r biliau canlynol:
- 2997 Linda Griffiths** Cyfieithu Ionawr 2011: **£101. 23** siec 1042
- 2998 Cambrian News** Hysbyseb swydd clerc: £108 + TAW £21.60: **Cyfanswm £129.60** siec 1043
- 2999 R D Benjamin** Glanhau 4 caban aros bws: **£40** siec 1044
- 3000 Neuadd y Penrhyn** Hurio ystafell Ebrill 2010 - Chwefror 2011- £60; rhent safle caban aros bws £10; ôl-daliadau rhent o 2009/10 - £8: **Cyfanswm £78** siec 1045
- 3001 Mr L Kelly** rhent blynyddol am eiddo'r Cyngor sydd wedi'i leoli ar dir y Siop/Swyddfa Bost: **£20** siec 1046
- 3002 Canolfan Gymunedol Hen Ysgol Trefeurig** hurio ystafell Ionawr 2011- **£15.** siec 1047

CYNLLUNIO

- 3003 Cais Cynllunio A100925LB** – Gwelliannau tân - Plas Gogerddan – Dim gwrthwynebiad

3004 Ceisiadau am swydd clerc Cyngor Cymuned Trefeurig

Dosbarthwyd copiâu o'r ceisiadau am swydd y clerc. PENDERFYNWYD cyfweld dau ymgeisydd ar ddydd Llun 7fed Mawrth 2011 yn Neuadd y Penrhyn. Y panel cyfweld i

gynnwys tri chynghorydd dan gadeiryddiaeth Y Cyng. T. Davies. Gall aelodau eraill o'r cyngor fynychu fel arsylwyr yn ystod y cyfweiliadau, a byddant yn cymryd rhan yn y penderfyniad dilynol.

3005 Cynhelir **Cyfarfod Nesaf y Cyngor** ar 15 Mawrth 2011 yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm

3006 **Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda:**

Tyllau yn y ffyrdd.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.45pm